




wales arts international  
celfyddydau rhyngwladol cymru

# Cysylltu: Cronfa Rhwydweithiau Ewropeaidd

Hydref 2019

---





Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, ar dâp sain ac ar ffurf iaith Arwyddion Prydain. Byddwn yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.

## Cynnwys

Diben y gronfa: .....	4
Blaenoriaethau'r gronfa .....	4
Am beth rydym yn chwilio? .....	5
Nid ydym yn gallu cefnogi:.....	5
Pwy all wneud cais: .....	6
Am faint byddaf i'n gallu ymgeisio? .....	6
Pryd i wneud cais: .....	7
Cyflwyno cais .....	7
Beth sy'n digwydd nesaf? .....	9

Mae Celfyddydau Rhyngwladol Cymru yn lansio cronfa newydd i helpu ymarferwyr creadigol unigol a sefydliadau'r celfyddydau yng Nghymru i ymwneud â rhwydweithiau Ewropeaidd.

## Diben y gronfa:

Diben **Cysylltu** yw helpu sector y celfyddydau yng Nghymru i ddatblygu, cynnal a chryfhau ei gysylltiadau â phartneriaid strategol allweddol yn Ewrop.

Fel unigolyn neu fel sefydliad, gall bod yn aelod o rwydwaith rhyngwladol ddwyn sawl budd. Mae'r rhan fwyaf o rwydweithiau Ewropeaidd yn agored i aelodau o'r tu hwnt i'r UE. Maent yn lle i gwrdd â chymheiriaid a rhannu syniadau â nhw, ac i gydweithio, dysgu a chyfnewid, ac mae llawer yn arwain at gydweithrediaid a phartneriaethau rhyngwladol yn y dyfodol.

Gall rhwydweithiau fod yn anffurfiol hefyd, gydag artistiaid a sefydliadau'n datblygu eu rhwydweithiau personol o gydweithredwyr a chymheiriaid ledled Ewrop a'r byd, trwy gyfranogi mewn preswyladau, gwyliau a phrosiectau rhyngwladol.

Un o bum prif uchelgais ein strategaeth ryngwladol, [Celfyddydau Cymru: pontio'r byd](#), yw ailddiffinio ein perthynas ag Ewrop. Mae hon yn adeg hanfodol i adnewyddu ein cydberthnasau â rhwydweithiau allweddol, yn ogystal â datblygu rhai newydd â phartneriaid ledled y cyfandir. Dyma'r hyn y bydd y gronfa **Cysylltu** yn ei gefnogi.

Mae **Cysylltu** yn rhan o fenter ehangach Llywodraeth Cymru, sy'n canolbwyntio ar sicrhau cydberthnasau yn y dyfodol â rhanbarthau, gwledydd a rhwydweithiau Ewropeaidd ar ôl Brexit.

## Blaenoriaethau'r gronfa

Bydd cyllid y gronfa Cysylltu yn blaenoriaethu **presenoldeb a chyfranogiad mewn digwyddiad a drefnir gan un o'r rhwydweithiau Ewropeaidd hirsefydlog** (cynhadledd/cyfarfod blynyddol gan amlaf). Gall hyn fod yn rhwydwaith rydych yn aelod ohono neu'n rhwydwaith rydych yn bwriadu ymuno ag ef. [Gweler Creative Europe Desk UK am restr o rwydweithiau Ewropeaidd allweddol.](#)

Byddwn ni hefyd yn ystyried cefnogi ceisiadau i fynd i gyfarfodydd neu ddigwyddiadau sy'n cael eu trefnu gan rwydwaith Ewropeaidd anffurfiol o unigolion sy'n cydweithio neu sefydliadau rydych chi'n aelod gweithgar gyda nhw neu rydych chi'n gobeithio gweithio gyda nhw. Bydd raid ichi felly brofi gwerth y rhwydwaith a'i ymroddiadau neu uchelgais hirdymor. Byddwch chi'n gallu ymgeisio i ragor nag un digwyddiad os oes rhesymeg glir a buddion cronol.

## Am beth rydym yn chwilio?

- Tystiolaeth o'ch profiad, eich parodrwydd i ymgysylltu ar lefel ryngwladol, a'ch ymagwedd a'ch parodrwydd i ddatblygu rhwydweithiau cyfredol a rhwydweithiau newydd ar gyfer eich gwaith, ynghyd â thystiolaeth o'ch angen am gymorth gennym.
- Amcanion, rhesymwaith a chynllun clir ar gyfer mynychu'r digwyddiad(au) dan sylw, gan nodi sut y bydd eich presenoldeb yn helpu i ddatblygu eich rhwydweithiau Ewropeaidd a chyfleoedd proffesiynol yn y dyfodol.
- Tystiolaeth fod gan y rhwydwaith a'r digwyddiad gynnwys, proffil ac enw da sylweddol ar lefel Ewropeaidd a rhyngwladol.
- Os ydych eisoes yn aelod o rwydwaith, dangoswch sut y bydd y cyllid hwn yn gwella neu'n cryfhau eich aelodaeth.
- Os nad ydych yn aelod o'r rhwydwaith eto, dangoswch eich cynlluniau i ymuno â'r rhwydwaith.
- Os ydych yn gwneud cais i fynd â dirprwyaeth, sut byddwch yn dethol y cynrychiolwyr?
- Eich gallu i fod yn llysgennad ar gyfer y sector rydych yn ei gynrychioli yng Nghymru.
- Eich parodrwydd i ddefnyddio'r profiad a'r wybodaeth sydd gennych i helpu i ddatblygu rhwydweithiau rhyngwladol ar gyfer y sector rydych yn ei gynrychioli yn ôl yng Nghymru.

Rydym yn bwriadu cefnogi cydbwysedd o ran gweithwyr creadigol proffesiynol a sefydliadau'r celfyddydau ac ar draws digwyddiadau a gynhelir tan **31 Hydref 2020**. Rydym ni'n annhebygol o gynnig rhagor na phum grant ar gyfer yr un digwyddiad.

## Nid ydym yn gallu cefnogi:

- Digwyddiadau sydd eisoes wedi digwydd
- Digwyddiadau a gynhelir ar ôl 31 Hydref 2020.
- Digwyddiadau heb ffocws rhyngwladol sylweddol, naill ai yn eu rhaglen neu drwy eu cynrychiolwyr.
- Digwyddiadau a gynhelir yn y DU neu'r tu hwnt i Ewrop.

- Costau llawn mynychu'r digwyddiad.
- Deunydd marchnata.
- Cyflwyno gwaith artistig, ac eithrio sesiynau cyflwyno byr.
- Cyfranogiad neu bresenoldeb mewn digwyddiadau cystadleuol.

## Pwy all wneud cais:

Sefydliadau'r celfyddydau a gweithwyr creadigol proffesiynol sy'n gweithio yng Nghymru. Gweler ein nodiadau cymorth am wybodaeth fanylach ar y meini prawf cymhwysedd a'r wybodaeth banc angenrheidiol.

Byddwch chi hefyd yn gallu ymgeisio i arwain dirprwyaeth fach o hyd at 5 unigolyn o'ch sector. Os felly, dylai fod i fynd i ddigwyddiad sy'n gysylltiedig â rhwydwaith rydych chi eisoes yn aelod ohono neu un rydych chi'n gallu dangos bod gennych gysylltiadau cryf ag ef.

Mae hwn yn gyfle cyllido ychwanegol, felly bydd ymgeiswyr sydd ar hyn o bryd yn derbyn dyfarniadau'r loteri gan Gelfyddydau Rhyngwladol Cymru neu Gyngor Celfyddydau Cymru yn gymwys i ymgeisio i'r gronfa hon.

## Am faint byddaf i'n gallu ymgeisio?

### 1. Costau mynychwyr

Byddwch chi'n gallu ymgeisio am fwyafswm o £1,000 y mynychwr am hyd at 75% o gostau **teithio, llety, taliadau fesul diwrnod a chostau cofrestru neu docynnau** mynediad i fynychu un digwyddiad rhwydwaith/rhwydweithio Ewropeaidd.

### 2. Costau cydlynu

ymgeisio i arwain dirprwyaeth, gallwch ymgeisio **am gyfraniad at gostau cydlynu**. Mae hyn ar ben costau mynychwyr.

### 3. Costau aelodaeth

Gallwch chi ymgeisio **am hyd at 50% o gostau aelodaeth flynyddol** am y ddwy flynedd cyntaf os hoffech chi ymuno â rhwydwaith Ewropeaidd. Mae hyn ar ben costau mynychwyr.

#### 4. Costau hygyrchedd

Gallwch chi hefyd ymgeisio am gostau hygyrchedd i chi, neu unrhyw un arall sy'n ymwneud yn uniongyrchol â datblygu a chyflwyno eich prosiect.

##### **Pryd i wneud cais:**

Cewch wneud cais am arian gan y gronfa Cysylltu hyd **15 Mawrth 2020** tra bydd arian ar gael. Cewch wneud cais unrhyw bryd. Rhaid cyflwyno cais o leiaf 5 wythnos cyn ichi deithio.

*Gallwn wneud eithriadau am ddigwyddiadau neu ymweliadau sy'n digwydd yn Nhachwedd 2019. Cysylltwch â ni i weld a allwn brosesu eich cais yn gyflymach.*

##### **Cyflwyno cais**

Cyn dechrau cais ar-lein, rhaid cysylltu â Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru i gael gwybod a yw eich cynnig yn gymwys i'r gronfa.

Os oes gennych anghenion hygyrchedd ac rydych yn meddwl cyflwyno cais, gallwn eich cefnogi drwy'r broses. Cysylltwch â Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru i drafod y mater.

Darllenwch y nodiadau isod wrth lenwi eich ffurflen gais:

Llenwch y meysydd yn y tab 'Ynglŷn â'ch Prosiect' gyda'r wybodaeth ganlynol:

*Pa gynllun: **Grant Strategol Celfyddydau Rhyngwladol Cymru***

*Teitl y prosiect: **Cysylltu [ac enw'r digwyddiad/rhwydwaith]***

Yn yr adran 'Atodiadau', atodwch **gynnig prosiect** sy'n cynnwys dim mwy na 1,000 o eiriau ac sy'n manylu'r wybodaeth ganlynol:

- Enwau, dyddiadau a dolen we at y digwyddiad(au) rhwydweithio, gan gynnwys unrhyw wybodaeth berthnasol am gynnwys rhyngwladol y digwyddiad neu ymweliad.
- Pam mae cymryd rhan yn y rhwydwaith yn berthnasol ar gyfer eich uchelgeisiau artistig a strategol, yn benodol eich cynlluniau rhyngwladol yn y tymor canolig a'r tymor hir?
- Beth yw eich amcanion ar gyfer mynychu'r digwyddiad(au) / ar gyfer yr ymweliad(au) a sut ydych yn disgwyl elwa ohono?

- Os ydych yn aelod presennol o rwydwaith, disgrifiwch sut byddwch yn datblygu ar eich digwyddiad neu ymweliad blaenorol.
- Os ydych yn bwriadu dod yn aelod o rwydwaith, disgrifiwch pam mae'r rhwydwaith penodol hwn yn arwyddocaol i chi neu i'r sefydliad rydych yn ei gynrychioli.
- Os ydych yn gwneud cais i arwain dirprwyaeth, rhaid ichi esbonio'n glir sut byddwch yn dethol y cynrychiolwyr y byddwch yn mynd â nhw a sut byddwch yn cynnig profiadau rhyngwladol newydd i weithwyr creadigol proffesiynol sy'n dod i'r amlwg.
- Os ydych yn cynnig mynychu cyfres o ddigwyddiadau, rhwch reswm a disgrifiwch y buddiannau cronol posibl.
- Sut byddwch yn gwerthuso'r effaith y mae'r arian wedi ei chael?

Bydd angen i chi atodi'r dogfennau canlynol hefyd:

- Cyllideb sy'n manylu ar:
  - costau mynychwyr (trafnidiaeth, llety, taliadau fesul diwrnod a chofrestru). Dylech ddangos sut byddwch yn talu am y 25% o'r costau sy'n weddill.
  - Costau cydlynu (os ydynt yn berthnasol)
  - Costau aelodaeth (os ydynt yn berthnasol)
  - Costau hygyrchedd (os ydynt yn berthnasol)
  - Costau cydlynu (os ydynt yn berthnasol)
- CV i bob mynychwr



## Beth sy'n digwydd nesaf?

Hysbysir yr ymgeiswyr am benderfyniad o fewn pedair wythnos waith ar ôl cyflwyno'r cais. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, bydd angen i chi lenwi adroddiad diweddu a'i ddychwelyd i ni o fewn 30 o ddiwrnodau ar ôl dyddiad diwedd eich ymweliad.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â thîm Celfyddydau Rhyngwladol Cymru drwy ffonio:

029 2044 1320 neu drwy anfon e-bost at: [info@wai.org.uk](mailto:info@wai.org.uk)

Hydref 2019